

CYNLLUN GOFAL LLAWN PENLAN

Ein nod yw cynnig gofal a thriniaeth o safon mewn amgylchedd braf, cyfforddus a diogel. Mae parhau i ddysgu a sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym maes deintyddiaeth fodern yn bwysig i ni. Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal y safonau uchel y mae ein cleifion yn eu disgwyl, mae'n dod yn fwyfwy pwysig inni sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael gennym yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau er mwyn ymateb i ofynion ein cleifion, a hynny o ran eu nifer a'u hanghenion.

Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi ymuno â DPAS Limited i gynllunio cynllun triniaeth ddeintyddol gynhwysfawr. DPAS fydd yn gweinyddu'r cynllun hwn a byddan nhw'n gwneud trefniant ar wahân gyda chi i reoli eich taliadau o dan y cynllun. Bydd y cynllun yn cynnig manteision i chi ac i ninnau. Bydd yn golygu ein bod yn gallu cynllunio'ch gofal deintyddol yn fwy effeithiol gan roi'r cyfle gorau ichi gadw'n ddeintyddol iach. Y fantais i chi yw y dylai fod llai o angen triniaeth yn y dyfodol ac y gallwch fod yn dawel eich meddwl y bydd y taliadau misol hwylus yn talu am eich triniaeth ddeintyddol. Ar ôl ichi ymuno â'r cynllun deintyddol, byddwch chi hefyd yn gymwys i ofyn am gymorth gan y Cynllun Cymorth Deintyddol Brys Byd-eang os digwydd i chi wynebu argyfwng neu drawma deintyddol gartref neu dramor (gweler dros y ddalen).



I BWY MAE'R CYNLLUN?

Bwriedir y cynllun ar gyfer cleifion sy'n dymuno ymweld yn rheolaidd â'r ddeintyddfa a bod yn dawel eu meddwl bod trefniant ar waith i dalu am eu triniaeth ddeintyddol reolaidd.

Y MANTEISION I CHI:

- mae'n cynnwys eich holl driniaeth ddeintyddol reolaidd
- talu drwy Ddebyd Uniongyrchol misol hwylus, sy'n gwneud cyllidebu'n haws
- gwarant y cewch gofrestru gyda'r ddeintyddfa a gallu gweld eich deintyddol
- sylwi ar broblemau deintyddol yn fuan er mwyn osgoi poen, annifyrrwch ac anhwylystod
- trefnu apwyntiadau ar adegau sy'n hwylus i chi pan fydd hynny'n bosibl
- blaenoriaeth ar gyfer apwyntiad os bydd problem ddeintyddol frys
- llinell gymorth 24 awr, 365 diwrnod y flwyddyn ar gyfer problemau deintyddol brys
- gallu gofyn am gymorth gan y Cynllun Cymorth Deintyddol Brys Byd-eang (gweler dros y ddalen).

BETH MAE'R CYNLLUN YN EI GYNNWYS?

Mae'r cynllun sylfaenol yn dechrau am gyn lleied â £12.80 y mis ac mae'n cynnwys:

- pob archwiliad iechyd deintyddol rheolaidd
- pob apwyntiad hylendid gan gynnwys glanhau a sgleinio a chyngor periodontaid
- pob pelydr-x
- pob triniaeth llenwi
- pob gwaith gosod coron neu bont
- cyngor ataliol helaeth gan gynnwys cyngor am ddeiet a hylendid y geg
- cerdyn aelodaeth sy'n cynnwys rhifau llinellau cymorth 24 awr ar gyfer achosion deintyddol brys gartref neu dramor
- gallu gofyn am gymorth gan y Cynllun Cymorth Deintyddol Brys Byd-eang (gweler dros y ddalen).

SUT MAE YMUNO Â'R CYNLLUN?

Byddwn yn asesu'ch sefyllfa i sicrhau bod ein cynllun yn gallu diwallu'ch anghenion ac yna'n dweud wrthy'ch faint fydd y gost fisol i dalu am eich holl driniaeth ddeintyddol reolaidd a'r taliadau rheoli a gweinyddu y bydd gofyn ichi eu talu i DPAS.

Wedyn, mae ymuno'n hawdd iawn. Y cyfan y bydd yn rhaid i chi ei wneud fydd llenwi ffurflen gofrestru i ni a ffurflen Debyd Uniongyrchol a ffurflen awdurdodi i DPAS.

Yn ogystal â'ch taliad misol cyntaf bydd gofyn ichi dalu ffi gofrestru gychwynnol, sef £10 y pen i DPAS a bydd hyn yn cael ei gynnwys yn eich taliad Debyd Uniongyrchol cyntaf.

Os byddwch yn dewis ymadael â'r cynllun am ryw reswm, gallwch wneud hynny'n rhwydd drwy roi mis o rybudd inni.

BETH SY'N DIGWYDD MEWN ARGYFWNG?

Bydd llinell gymorth fyd-eang 24 awr, 365 diwrnod y flwyddyn ar gael ichi ar gyfer achosion deintyddol brys, a bydd y gwasanaeth hwn yn ceisio dod o hyd i ddeintydd sy'n siarad Saesneg i'ch helpu.

BETH SYDD HEB EI GYNNWYS YN Y CYNLLUN?

Nid yw pob gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan y ddeintyddfa'n cael ei ystyried yn driniaeth reolaidd. Mae rhai o'r triniaethau hyn y tu allan i gwmpas y cynllun ac nid yw'r taliad misol yn talu am y gwasanaethau hyn:

- deintyddiaeth gosmetig
- atgyfeirio i arbenigwyr
- ffioedd labordai
- mewnbliadau
- orthodonteg
- triniaeth sianel y gwreiddyn.

Mae'n bosibl talu ar wahân am driniaeth sydd heb ei chynnwys dan y cynllun hwn.

Gall y telerau yn y daflen hon newid yn ddirybudd.

UNRHYW GWESTIWN?

Os oes gennych gwestiwn am eich cynllun, croeso ichi gysylltu â'n tîm yn y dderbynfya a byddan nhw'n falch o roi rhagor o wybodaeth a chyngor ichi.



SUT MAE'R CYNLLUN CYMORTH DEINTYDDOL BRYD BYD-EANG YN GWEITHIO?

Tra byddwch chi'n aelod o'r cynllun deintyddol, os byddwch yn wynebu argyfwng neu drawma deintyddol, neu os cewch ddiagnosis o ganser y geg, byddwch yn gallu gofyn am gymorth o dan y Cynllun Cymorth Deintyddol Brys Byd-eang. Nid oes yn rhaid i'r Cynllun ymateb i bob cais o'r fath. Mae hyn yn golygu, er bod y Cynllun yn ceisio cynnig help yn y rhan fwyaf o achosion, nad oes yn rhaid iddo wneud hynny oni fydd Rheolwr y Cynllun (y sawl sydd wedi'i benodi i'w weinyddu) yn penderfynu yn gyntaf (ar sail ei ddisgresiwn llwyr ac absoliwt) y dylai'r Cynllun helpu. Nid yw'r Cynllun wedi'i fwriadu i helpu o dan bob amgylchiad (ac mae'r amgylchiadau hyn sy'n cael eu heithrio yn debyg i'r eithriadau sydd mewn polisi yswiriant). Mae 'na esboniad mwy manwl am hyn yn Llawlyfr y Cynllun. Bydd Rheolwr y Cynllun yn edrych ar bob achos unigol i asesu'r cais am help. Efallai y rhoddir cyfyngiadau a therfynau penodol ar waith os bydd eich cais am help yn cael ei dderbyn ac efallai y bydd Rheolwr y Cynllun yn penderfynu peidio â helpu o gwbl dan rai amgylchiadau.

Os bydd Rheolwr y Cynllun yn cytuno i'ch cais am help, byddwch yn gymwys i gael taliadau o dan y Cynllun yn y sefyllfaoedd a ganlyn (hyd at y terfynau a bennir gan y Cynllun ac a gyhoeddir o bryd i'w gilydd):

- ✓ Cost triniaeth ddeintyddol gan unrhyw ddeintydd hyd at fwyafswm o £10,000 ar gyfer unrhyw un digwyddiad o drawma deintyddol
- ✓ Cost:
 - galw deintydd allan mewn argyfwng
 - lleddfu poen neu driniaeth frys dros dro
- ✓ Swm penodol ar gyfer pob cyfnod cyflawn o 24 awr mewn ysbty yn gyfan gwbl neu'n rhannol o dan ofal ymgynghorydd sy'n arbenigo ym maes llawfeddygaeth ddeintyddol neu'r genau a'r wyneb
- ✓ Swm penodol os cewch chi ddiagnosis o ganser y geg ac mai'r geg yw prif safle'r canser

Bydd llinell gymorth 24 awr fyd-eang ar gael ichi hefyd ar gyfer achosion deintyddol brys.

Mae'r manylion llawn yn Llawlyfr y Cynllun Cymorth Deintyddol Brys Byd-eang.

Mae'r Cynllun Cymorth Deintyddol Brys Byd-eang yn cael ei weithredu gan Worldwide Assistance Ltd (Rhif y Cwmni 10907861), cwmni sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr.

Swyddfa Gofrestredig: Cambrian Works, Ffordd Gobowen, Croesoswallt, Swydd Amwythig SY11 1HS

NID cynnyrch yswiriant yw'r Cynllun Cymorth Deintyddol Brys Byd-eang ac NID yw'n cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Prif Ddeintydd

Dr Elsbeth Iorwerth

Deintydd Cyswllt

Dr Eleri Griffith

Manylion Cysylltu

Deintyddfa Penlan

6 Stryd Penlan

Pwllheli

Gwynedd

LL53 5DH

† 01758 613341

e penlandentalcare@gmail.com

Oriau Agor

Dydd Llun 8.15am-1pm / 2pm-5.15pm

Dydd Mawrth 8.15am-1pm / 2pm-5.15pm

Dydd Mercher 8.15am-1pm / 2pm-5.15pm

Dydd Iau 8.15am-1pm / 2pm-5.15pm

Dydd Gwener 8.15am-1pm / 2pm-5.15pm

Achosion brys

01758 613341

Llinell gymorth oddi cartref:

(DU) 0800 525631

(Dramor) +44 1747 820841



CYNLLUN GOFAL LLAWN PENLAN